


---

# CYFLWYNIAD I 105

A sut y gallwch chi gefnogi'r lansiad

**TORIAD  
TRYDAN?  
FFONIWCH 105**



---

## BETH YW 105?



Mae 105 yn rif tri digid newydd y gall pobl ei ffonio i roi gwybod am doriad i'r trydan neu i gael gwybodaeth.

---



Gallwch ffonio 105 gydag unrhyw bryderon am les sy'n gysylltiedig â thoriad i'r trydan, neu os ydych yn poeni am ddiogelwch unrhyw geblau tanddaearol, gwifrau uwchben y ddaear neu is-orsafoedd.

---



Mae 105 yn rhad ac am ddim a bydd yn eich cysylltu gyda'ch gweithredwr rhwydwaith lleol. Gallwch ffonio 105 o'r rhan fwyaf o ffonau a ffonau symudol.

---



Bydd yn cael ei lansio yn mis Medi 2016 a bydd ar gael i bobl yn Lloegr, yr Alban, a Chymru.

---

Bydd gwefan [powercut105.com](http://powercut105.com) yn fyw erbyn y lansiad, ac yn darparu mwy o wybodaeth ac yn cyfeirio pobl at eu gweithredwr rhwydwaith lleol.



---

## PAM MAE'N CAEL EI GYFLWYNO?



Nid yw llawer o bobl yn gwybod gyda pwy i gysylltu i roi gwybod am doriad i'r trydan neu i gael diweddariad – a llawer yn ffonio'r cwmni sy'n darparu eu trydan ac yn anfon bil atynt mewn camgymeriad.

---



Y gobaith gyda 105 yw datrys hyn gan ddarparu rhif hawdd ei gofio fydd yn eu cysylltu yn syth i'w gweithredwr rhwydwaith trydan lleol.

---



Mae hyn yn arbennig o wir yn ystod tywydd garw pan all stormydd amharu yn sylweddol ar gyflenwad trydan i gartrefi a busnesau.

---



Un ffordd yn unig o gysylltu gyda gweithredwr rhwydwaith yw 105. Mae'n bosib cysylltu â nhw hefyd ar eu rhif 0800, trwy eu gwefan – ac mae'n bosib cysylltu gyda nifer ar eu rhwydweithiau cymdeithasol hefyd.

---



---

## PWY SY’N GYFRIFOL AM 105?

Mae 105 yn cael ei ariannu ar y cyd gan weithredwyr rhwydwaith trydan.

---

Gweithredwyr rhwydwaith trydan yw’r cwmnïau sy’n rheoli a chynnal ceblau tan ddaear, gwifrau uwchben a’r is-orsafoedd sy’n dod â thrydan i gartrefi a busnesau.

---

Mae nifer o weithredwyr rhwydwaith trydan. Mae’r rhai mwyaf yn gyfrifol am ardaloedd gwahanol o Brydain.

---

Ble bynnag ‘rydych yn byw, bydd 105 yn eich cysylltu chi â’r gweithredwr rhwydwaith cywir.



---

# MAE 105 YN CAEL EI GEFNOGI GAN Y LLYWODRAETH



“ Mae teuluoedd a busnesau ym Mhrydain angen gwybod ble i droi os ydynt heb drydan yn ystod tywydd garw neu ddigwyddiadau eraill. Mae rhif syml tri digid yn lleihau'r ansicrwydd ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei angen ar bobl, pan maen nhw ei angen ”




---

**Rt Hon Amber Rudd**

Cyn Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ynni a Newid Hinsawdd



**TORIAD  
TRYDAN?  
FFONIWCH 105**



---

# YMGYRCH CODI YMWHYBYDDIAETH CWSMERIAID



---

## Medi 2016

---

Bydd y rhif yn cael ei lansio gyda stori PR a chynnwys cefnogol ar rwydweithiau cymdeithasol.

Bydd y wefan 105 yn fyw a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth trwy eu sianeli nhw.

Bydd ymgyrch hysbysebu ar y radio, cyfryngau digidol a hysbysebion awyr agored.



---

## Hydref/ Gaeaf 2016/17

---

Bydd yr ymgyrch hysbysebu yn parhau trwy'r gaeaf.

Bydd cysylltiadau cyhoeddus, ymgyrch rhwydweithio cymdeithasol a gwaith gyda rhanddeiliaid yn parhau.



---

# SUT ALLWCH CHI GEFNOGI LANSIAD 105

Allwch chi helpu ni i godi ymwybyddiaeth o 105 trwy eich sianelau chi, pan fydd y gwasanaeth wedi ei lansio fis Medi?

---

Gallwn ddarparu::

Cynnwys ar gyfer newyddlenni, gwefannau a chylchgronau

Delweddau 105

Tips ar beth i wneud mewn toriad trydan

Deunydd i wefannau cymdeithasol

Ffilm wedi ei animeiddio yn egluro 105:

<http://www.energynetworks.org/info/powercut105.html>

---

Gallwn hefyd weithio gyda chi i gyd-greu cynnwys wedi ei deilwra yn arbennig ar gyfer eich sianelau chi.

---

Rydym yn awyddus i barhau i gydweithio efo partneriaid i godi ymwybyddiaeth am 105 yn yr hir dymor.





DIOLCH

